

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PARRY, HUMPHREY (c. 1772 - 1809), ysgolfeistr, aelod o Wyneddigion a Chymreigyddion Llundain

Enw: Humphrey Parry
Dyddiad geni: c. 1772
Dyddiad marw: 1809
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr, aelod o Wyneddigion a Chymreigyddion Llundain
Maes gweithgaredd: Addysg; Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd tua 1772 yn y Cwm Mawr, Clynnog Fawr, Arfon. Yn glerc i gyfreithiwr yr aeth i Lundain, ond wedyn bu'n athro cynorthwyol yn ysgol ramadeg y Brewers' Company, Sadler's Wells, dan David Davies. Ar farwolaeth Davies (1797), agorodd Parry ysgol breifat yn Hackney; gellid meddwl iddi fod yn llwyddiant, oblegid yn 1806 sonia am wario £700 ar helaethu ei hadeilad. Yr oedd yn aelod o'r Gwyneddigion (is-lywydd 1807, llywydd 1808), a hefyd o'r Cymreigyddion. Pan gychwynnwyd *Y Greal* (1804), yr oedd yn un o'r pedwar a'i harolygai - **Pughe** a'r '**Bardd Cloff**' yn cynrychioli'r Gwyneddigion, Parry a '**Glan-y-gors**' yn cynrychioli'r Cymreigyddion (ond yr oedd y pedwar yn aelodau o'r ddwy gymdeithas); y mae pob arwydd bod Parry 'n arweinydd gwrthblaid a godai yn erbyn awdurdod '**Owain Myfyr**' a **Pughe** yng nghyfarfodydd y Gwyneddigion. Teimlai fod **Pughe** (ar bwys 'llogellau **Owain Myfyr**, chwedl Parry) yn cael gormod o'i ffordd, ei fod yn mynnu cael argraffu'r *Greal* yn ei orgraff ef ei hunan, ac yn cadw allan ohono bopeth ond a gydwedddai â'i olygiadau ef - a hefyd fod cynnwys *Y Greal* yn rhy hynafol i ddiddori'r darlennydd cyffredin. Eglura hyn oll mewn llythyr maith (Medi 1806) at '**Dafydd Ddu Eryri**' - dengys y llythyr, gyda llaw, y gallai Parry ei hunan fod mor ffansiol â **Pughe** yn ei syniadau gramadegol. Dymunai weld cylchgrawn Cymraeg mwy gwerinol na'r *Greal* yn cael ei gyhoeddi yng Nghaernarfon. A phan gychwynnodd '**Dafydd Ddu**' *Yr Eurgrawn* (1807), anfonodd Parry i ail rifyn (1808) y cylchgrawn byrhoedlog hwnnw ysgrif ar ramadeg (dyddiedig o Glynnog, Gorffennaf 1807), 'i'w barhau yn y nesaf.' Cyfeirir at Parry yn amryw o lythyrau '**Dafydd Ddu**' yn *Adgof uwch Anghof* '**Myrddin Fardd**,' a gwelir yno fod ym mryd Parry gyhoeddi gramadeg Cymraeg. Yn ôl **Leathart**, yr oedd yn ysgolhaig da yn yr ieithoedd clasurol a modern. Bu farw fis Ebrill 1809, wrth ddarllen llyfr Cymraeg i'w gydysgolhaig y **Dr. John Jones** (1766? - 1827).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 44, 45, 101, 102
Journal of the Welsh Bibliographical Society, III, iv, 135-44 (y llythyr y cyfeiriwyd ato uchod)
Y Cymmrodor, 1951, 97, 121

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733216](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

Jenkins, R. T., (1953). PARRY, HUMPHREY (c. 1772 - 1809), ysgolfeistr, aelod o Wyneddigion a Chymreigyddion Llundain. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-PARR-HUM-1772>

Prefatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government